

Llais y Llan Chwefror 2014

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Mawrth 2014

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Dawnsio Zumba yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth 6.30 – 7.30

MOBI tu allan i'r Neuadd Goffa pob nos Fercher o 17.30 tan 19.30

Merched Y Wawr trydydd Nos Lun pob mis yn y Neuadd Goffa am 7:30

Chwefror 20 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Chwefror 21 – 23 Penwythnos Garddio Llandysul Neuadd Tysul

Chwefror 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Chwefror 23 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook Bronwydd

Chwefror 24 Dydd Llun 2.00 Clwb Gwili >60+ Neuadd Bronwydd

Chwefror 24 Nos Llyn 7.30 PCC Eglwys Llanpumsaint

Chwefror 28 Nos Wener 7.30 Noson 'Grand Horse Racing' Neuadd Goffa

Mawrth 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mawrth 11 Dydd Mawrth 12.15 Clinig 'Traed Hapus' Neuadd Goffa

Mawrth 12 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mawrth 20 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Mawrth 22 Dydd Sadwrn 10.00 Diwrnod Codi Sbwriel Neuadd Goffa

Mawrth 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mawrth 24 Dydd Llun 2.00 Clwb Gwili >60+ Neuadd Bronwydd

Mawrth 30 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook Bronwydd

Ebrill 1 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ebrill 8 Nos Fawrth 8.00 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddoll Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ebrill 9 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 12 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Alltwalis

Ebrill 17 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Ebrill 27 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mai 4 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mai 5 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Clwbgwili 60+

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2104 Clwbgwili 60+ ar y 27ain o Ionawr. Daeth dros 60 o aelodau i'r cyfarfod gyda'r siaradwr gwadd; Mr Robert Morgan yn areithio ar y pwnc 'Mae bywyd yn dechrau yn 60'.

Tyfu'n raddol bu hanes y clwb dros y flwyddyn ddiwethaf gan lwyddo i gael dros 100 o aelodau'r mis yma. Mae aelodau wedi cael calendr digwyddiadau sy'n dangos rhaglen byrlymus gydag amryw o weithgareddau ar gyfer misoedd sydd i ddod. Gan gynnwys dwy wibdaith dau ddiwrnod a dau hanner diwrnod.

Cynhelir y cyfarfod nesaf y clwb ar y 24ain o Chwefror pan fydd aelodau yn mwynhau basn o gawl ynghyd â lluniaethau arall, i ddathlu Dydd Gwyl Ddewi. Y siaradwr gwadd am y diwrnod bydd PC Martin Dickenson PSO o Heddlu Dyfed Powys. Croeso cynnes i aelodau newydd. Os oes gennych ddi-ddordeb cysylltwch â'n ysgrifenyddes Val Giles ar 01267 281194.

Gwasanaeth "Traed Hapus" gyda 'Wellbeing Regeneration's Footcare Service'

Mae'r gwasanaeth torri ewinedd traed yn dod i Neuadd Goffa Llanpumsaint bob chwe wythnos. Mae'r sesiwn nesaf yna ar y Mawrth 11 am 12.15y.p.. Ffoniwch i archebu eich lle. Pris y sesiwn yw £8.50 ond mae angen taliad cychwynnol o £26.50 am bâr o glipwyr a rhathell eich hunan. Am wybodaeth ac archebu: 01554 744896 - oriau swyddfa 9.30 hyd 4.30 y.p.

http://www.wellbeingregeneration.org.uk/cms/index.php?option=com_content&view=article&id=56&Itemid=18

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Yn anffodus, o ganlyniad i'r tywydd gwlyb a garw ers y Nadolig mae ein teithiau yn ystod Ionawr a Chwefror wedi'i gohirio.

Fodd bynnag, gobeithion am dywydd dymunol ar gyfer ein taith nesaf a fydd yn Nyffryn Nant Alltwalis ar ddydd Sadwrn 12fed o Ebrill am 2.00 yp. Mae'r daith yn tua 5 milltir, gan ddringo'n raddol ar hyd y dyffryn. Gyda diolch i Chris Fuller, gallwn barcio yng Nglyncoch yn Alltwalis (wrth ddod fewn i Alltwalis o Lanpumsaint, trowch i'r dde i mewn at heol gul iawn cyn y bont dros yr afon. Glyncoch yw'r lle cyntaf ar y chwith.) Byddwn yn croesi caeau gyda defaid felly mae'n orfodol i gŵn fod ar dennyn. Bydd hefyd rhaid croesi rhai nentydd ar y death felly mae esgidiau gwrth-ddŵr yn synhwyrol. Os ydych chi am ymuno â ni, gadewch i mi wybod er mwyn rhannu car. Byddwn yn aros am bicnic wrth yr adfeilion ar gopa'r dyffryn.

Mae ein teithiau cerdded yn agored i bawb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carolyn ar 01267253308, info@gwilimill.co.uk

Diwrnod Codi Sbwriel

Mae Clwb Cerdded Llanpumsaint wedi trefnu diwrnod codi sbwriel ar ddydd Sadwrn 22ain o Fawrth am 10.00 yb, i ddechrau wrth y Neuadd Goffa. Bydd 'Keep Wales Tidy' yn darparu offer, menig a bagiau - rydym ond eisiau i chi ddod i gasglu sbwriel o heolydd y pentref. Mi fydd ond yn cymryd ychydig o oriau, llai os gawn ddigon o bobl - tro diwethaf wnaethom godi sbwriel casglom dros 20 bag du o sbwriel. Felly plis dewch i'n helpu i gadw'r pentref yn lan.

Carolyn Smethurst 253308

Sialens 'Pedometer' Cymru

Mae yna sialens newydd - wedi'i sefydlu yn 2014 i herio eich hun, cymrwch Sialens 'Pedometer' Cymru. Mae 'Lets Walk Cymru' eisiau i bobl Cymru gerdded a herio'i hun yn fwy aml i gerdded yn fwy aml. Mae cofnodi a sylwi ar faint o gamu ydych yn gwneud yn gymhelliad da i gael eich hun yn fwy heini.

Gallwch herio'ch hun wrth gwrs; ond croeso i chi herio eich cydweithwyr, teulu neu ffrindiau i ddechrau cerdded. Cerddwch tri chopa Cymru efallai neu sefydlwch dim i gamu ar draws y byd. Cofrestrwch heddiw i ddechrau drwy ymweld â

www.walespedometerchallenge.org.uk

Clwb 100 Llanpumsaint

Yng nghyfarfod pwyllgor Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint ar y 13eg o Ionawr, tynnwyd y rhifau ar gyfer Ionawr. Dyma'r enillwyr:

£20	Rhif75	Dorrien Thomas
£10	Rhif71	Jack and Sheila Nuttall
£5	Rhif22	Wyn Thomas
£5	Rhif52	Sulwen Jones

Telir yr enillwyr lwcus drwy siec. Fel arfer, does dim gwobrau yn Chwefror. Bydd datganiad cyllid am 2013/14 yn cael ei lunio gyda chais am dal aelodaeth yn fuan. Croeso cynnes i unrhyw aelodau newydd. Tanysgrifio - £12 y flwyddyn, gyda 10 tyniad misol gyda gwobrau £20. £10 a 2 x £5, a delir drwy siec. Yn achos y 'December Grand Christmas Draw' mae'r brif wobr yn £100, 2 x £25, 2 x £15 a 9 x 15. Os ydych am fwy o wybodaeth cysylltwch â Derick Lock 253524.

Gwasanaeth y Swyddfa Bost -- Gair i'ch atgoffa fod y fan yn dod bob prynhawn Dydd Mawrth - 2 y.p - 4 y.p; Prynhawn Gwener -- 1 y.p - 3 y.p. Bydd yn parcio yn yr arhosfa'n ger Brynywawr gerllaw Tafarn y Railwe.

Mobi Os y medrwch fod o gymorth cysylltwch a Carys 01267 221551

Cynllun Bandydan Cyflymach

Llwyddom ar ddiwedd mis Ionawr 2013 i uwchraddio ein bandlydan 1.4Mb o gyflymder i tua 10Mb (sy'n gyflym i'n ardal ni).

Mae ein gwasanaeth bandlydan BT presennol wedi cael ei amnewid am bandlydan diwifr o gwmni o'r enw Resq. Gwrthodom y sefydliad cyntaf o 3Mb gan nad oedd o gyflymder derbyniol. Ers hynny, mae system Resq wedi'i uwchraddio ac wedi'i sefydlu cyn i ein cynllun presennol ni i orffen (gweler isod). Ariannwyd y sefydlu gan rodd wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru (ychydig o dan £1000). Wrth gwrs rhaid i ni dalu'r costau parhaol am logi'r llinell - £24 y mis yw hwn, gyda hyd at 10Mb a dim cyfyngiadau lawrlwytho.

Bydd y cynllun yn diweddu ar ddiwedd Mawrth 2014. Os oes gennych ddiddordeb mewn uwchraddio i' cynllun newydd raid i chi gwrdd â'r meini prawf isod;

- cyflymder bandlydan o lai na 2Mb, a chaiff ei fesur ar 3 cyfnod pendant ar yr un diwrnod
- ni fydd y cyfnewid yn cael ei gynnwys yng nghynllun 'Superfast Cymru'
- rhaid cysylltu gyda Llywodraeth Cynlluniad Cymru i gael ffurflenni cais, ei llenwi a'i dychwelyd
- ymgeisio cyn gynted ag sy'n bosib sicrhau bod llythyr cynnig wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyrraedd cyn y dyddiad cau

Felly, mae'n rhaid i chi weithredu nawr.

Os bydd eich cais yn cael ei derbyn yna bydd gennych chwe mis o'r dyddiad y cynnig, er mwyn i'r gwasanaeth gael ei sefydlu, neu bydd y cynnig yn cael ei dileu.

I brofi cyflymdra eich bandlydan, ewch i <http://www.speedtest.net/>. Gwiriwch a yw eich cyfnewidfa yn y cynllun 'Superfast', ewch i <http://www.superfast-cymru.com/where-and-when> a mewnbynnwch eich rhif ffôn.

Os yw'r holl feini prawf wedi'i gyrraedd, cysylltwch â'r 'Welsh Government Broadband Scheme' ar 03000 61 5514 / 6039 i gael am ffurflenni.

Pob lwc, Dave Robinson.

Superfast Cymru

Mae Llywodraeth Cymru a B.T. yn cydweithio i sicrhau fod 96% o'r wlad yn derbyn Y band eang erbyn 2016, ac maent yn cyhoeddi cylchlythyr i'ch diweddarau am hynt a helynt y rhaglen. Eu bwriad yw ein hysbysu pa gymunedau fydd nesaf i dderbyn y ffibr cyflym, a chynnwys straeon o'r cymunedau hynny sydd eisoes wedi elwa o'r gwasanaeth band eang cyflym yma.

Ar hyn o bryd mae ardal Llanpumsaint dan arolwg ond heb dderbyn dyddiad gweithredol, felly byddai'n syniad da i bawb gofrestru ar <http://www.superfast-cymru.com>. Deallwn y bydd Cyfnewidfa Pencader rhai eraill yn weithredol yn 2014 neu 2015.

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru

Dydd Sul Chwefror 23 – Ian Pegler

Dydd Sul Mawrth 23ain – AGM yn dilyn y cyfarfod yma bydd cyfle i chwilio am wobrau gan ddefnyddio eich sgiliau dewinio. Hyfforddiant ar gael.

Dydd Sul Ebrill 27ain - y siaradwr gwadd byd Gary Biltcliffe, yn siarad am y Llinell Belinus, a redir lawr cefn Prydain.

Dydd Sul Mai 4ydd – Diwrnod Cenendlaethol Dewinio *

Dydd Sul Mai 25ain - siaradwr gwad bydd Tim Willcocks yn rhoi ei farn ef ar ddirgelwch y Ddaear a safleoedd sanctaidd hynafol.

Mae darogan yn ymarfer defnyddiol a diddorol a gall bron unrhyw un ei ddysgu.

Dywed ei fod wedi deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïoedd yn defnyddio gwasanaeth daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, ceblau trydan ayyb. Mae rhai yn chwilio am fwyd ac eraill yn chwilio am unrhyw dynfa daearyddol yn ei amgylchedd; ond mae darogan yn gred bersonol ac nid yw wedi'i brofi yn wyddonol. Felly pam na ddewch chi i'r cyfarfod dydd Sul? Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys lluniaeth ysgafn yn y toriad. Am wybodaeth bellach: Sandy 01267 253 547

Newyddion Heddlu

Yn NPT Caerfyrddin rydym wedi derbyn nifer o alwadau wrth drigolion sy'n poeni am bobl sy'n cerdded eu cŵn yn gynnar yn y bore ac yn hwyr yn y nos mewn ardaloedd lle nad oes goleuadau stryd. Maent mewn perygl gan nad ydynt yn gwisgo unrhyw ddillad 'hi viz' ac mae gyrwyr ond yn ei cael ei gweld ar yr eiliad olaf. Cynghorwn unrhyw un sy'n cerdded ar yr heol i o leiaf wisgo cot adlewyrchol i sicrhau bod gyrwyr yn eich gweld.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Neuadd Bronwydd, Bore Dydd Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 9:15 – 12:00

Cylch Ti a Fi - Bore Dydd Gwener 10:00 – 12:00 (Ygost am "Ti a Fi" yw £2.50)

Mae Cylch Meithrin Bronwydd yn cynnig gofal plant o ansawdd uchel i blant 2 ½ oed hyd at oedran ysgol. Rydym yn credu mewn creu amgylchedd diogel, hapus a chroesawgar ar gyfer y plant, staff a rhieni. Bydd eich plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau addysgol, llawn hwyl a sbri.

Mae Cyngor Sir Gâr yn cynnig 10 awr o addysg am ddim i blant dros 3 blwydd oed. Os nad ydy eich plentyn yn gymwys yna rhaid talu £6 y bore, yn cynnwys byrbrydau a llaeth. Am ragor o wybodaeth cysylltwch ein Arweinydd ar 01558 822652.

Yr alarch unig!

Efallai eich bod chi wedi bod mor ffodus a gweld alarch yn hedfan dros y pentref, neu hyd yn oed yn fwy ffodus o weld alarch ar eich llyn neu bwell. Chwilio am ei ffrind ydyw - menyw brydferth a wnaeth ei adael yn yr Hydref ac sydd heb ddychwelyd ers hynny.

Mae'r pâr o elyrch o ddaeth atom yn Ebrill 2013 - wedi dod o llyn yn Llundain oherwydd gallant fod wedi achosi anawsterau yno. Felly daeth 'Swan Lifeline' - gwasanaeth achub elyrch - â'r elyrch atom ni, a fe'u gelwir yn Phil a Liz. Clipiwyd eu hadenydd i sicrhau nad oedden yn hedfan yn ôl i Lundain.

Mewn da bryd gwnaethant gyfarwyddo gyda ni, gan ddychwelyd atom wrth i ni chwibanu oherwydd iddynt fwynhau'r grawn yr oeddem yn eu bwydo. Roeddent yn talu am eu grawn drwy chwynnu ein llyn. Roeddent yn bar cariadus iawn, a gwnaeth y cob gwneud nyth gwych yn y llyn. Serch hynny, er nifer o gyfarfodydd cariadus, ni wnaeth y fenyw ddodwy wyau ac felly dim cywion.

Yn yr Hydref, bu'r ddau ar nifer o anturiaethau gan bod ei hadenydd hedfan wedi tyfu yn ôl. Ond, dychwelyd i'r llyn dyddiau wedyn oedd eu hanes, gyda'i gilydd neu ar wahân; gyda'r gwryw yn tacluso'r nyth ar fenyw yn ymlacio. Un diwrnod yn anffodus roedd y fenyw ar goll, ac nid ydym wedi ei gweld hi ers hynny. Hedfan i ffwrdd mae'r gwryw unig, bob ychydig ddyddiau, gan ddychwelyd i'n llyn am ychydig ddyddiau o lonydd. Mae wedi bod yn gwneud hyn ers misoedd yn chwilio am ei fenyw brydferth. Honnir bod elyrch yn cyplysu unwaith ac am ei bywyd cyfan, mawr obeithiwn ei bod yn gallu darganfod ei gariad eto. Mae'n siŵr o erlid unrhyw alarch arall oddi ar y llyn - felly rwy'n gobeithio bydd yr alarch benyw yn dychwelyd cyn hir, wna i adael chi wybod!

Yn y cyfamser, mae gennym tua 30-40 o hwyaid o Ganada yn dod ac yn mynd - rydych siŵr o fod yn gallu ei clywed yn cellwair wrth iddynt hedfan dros y pentref. Yn barod maent yn cael trefn ar eu nythoedd - mis yn gynnar gan fod y gaeaf yn gynnes. Hefyd gwelwn nifer o hwyaid gwyllt yn paru, felly gallwn ddisgwyl nifer o hwyaid bach wedyn. Carolyn Smethurst 253308

CYSYLLTIADAU GRID COEDWIG BRECHFA - mae Western Power Distribution wedi dynodi'r coridorau a ffafrir i gludo pŵer o felinau gwynt ym Mrechfa. Yn ystod yr ymgynghoriad nesaf byddant yn gofyn i gymunedau lleol, cynghorau cymuned, ymgynghorwyr statudol, cynrychiolwyr etholedig, grwpiau defnyddwyr mwynderau lleol, tîrfeddianwyr a phobl sydd â diddordeb yn y tir - y bydd yn parhau am wyth wythnos o Chwefror 2013. Bydd WPD yn ysgrifennu at y rheini sy'n bosib o gael ei heffeithio gan un o'r llwybrau a ddynodwyd ganddynt a'i gwahodd i drafodaethau cyhoeddus. Am fwy o wybodaeth dilynwch y linc isod

<http://www.westernpower.co.uk/About-us/Our-Business/Our-network/Current-WPD-network-planning-consultations/Brechfa-Forest-Connection/News/Latest-plans-for-Brechfa-Forest-Connection-Project.aspx>

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo

Ar hanner y tymor, mae Llanpumsaint yng nghanol y tabl. Anodd credu mai ond 9 pwynt o wahaniaeth sydd rhwng y tîm mewn ail safle, a'r tîm ar waelod y tabl - felly mae'r gystadleuaeth yn frwd.

Enillodd y clwb yn erbyn Llandyfaelog yng nghystadleuaeth 'Knock-out Cup' ar y 16eg o Ionawr, gan ennill 4 gem gyda gwhaniaeth o 63-20. Llwyddiant ysgubol i'r clwb. Gyda dwy gêm arall yn erbyn Llandyfaelog cyn diwedd Ionawr, gobeithiwn fel tîm geisio ailadrodd y perfformiad yma.

Cafwyd llwyddiant hefyd yn y 'Red Card County Tournaments'. Llongyfarchiadau mawr i Richard Arran a wnaeth ennill y gystadleuaeth unigol, a hefyd i Dylan Jones, Gethin Edwards ac Aled Edwards a oedd yn 'runner up' yng nghystadlaethau'r triawd. Gan golli yn y rownd derfynol i ond un cynnig ar yr ochr ychwanegol.

Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Llwyddiant mawr oedd gorymdaith noswyl Nadolig Siôn Corn, er gwaethaf y tywydd.

Codwyd £329 gan bawb a heriodd y tywydd ar y daith, a chodwyd £135 drwy werthu raffl yn Nhafarn y Rheilffordd yn dilyn yr orymdaith. Ymhellach codwyd £361 wrth y casgliad poteli a oedd ar y bar; felly gyda'r arian a godwyd yn 2013, bydd y Gymdeithas yn medru rhoddi £900 i elusen ddewisol 2013. Yr elusen arbennig yw Clinig Clyw yn Ysbyty Glangwili.

Hoffai'r Gymdeithas ddiolch i'r holl a wnaeth rhoi ei cefnogaeth i'n gweithgareddau llynedd, a diolch arbennig i'r canlynol:

- Jayne, Mike a Nick yn Nhafarn y Rheilffordd am ei cefnogaeth parhaol i ein holl gweithgareddau codi arian, yn arbennig gyda'r Gorymdaith Siôn Corn. Wedi cerdded o amgylch y pentref ar Noswyl Nadolig, roedd cawl Mike wedi'i werthfawrogi yn fawr.
- Gorymdaith Sion Corn – diolch i Ann Wyke am ei rholiau selsig a'i 'mins peis' a oedd pawb yn edrych ymlaen yn awchus amdanynt. Hefyd diolch i Carolyn Smethurst am ei 'mins peis' hi a oedd yn y Tafarn
- Yn olaf, diolch yn fawr i'r hen Sion Corn a'i weithwyr!

Ymysg yr holl gyffro yn y Rheilffordd, ni farnwyd y gystadleuaeth gwisg ffansi ac felly aeth y wobwr ariannol tuag at gronfa'r poteli ar y bar.

Bwriedir y Gymdeithas i gynnal yr orymdaith eto yn 2014. Eleni, bydd yr holl arian a gasglir yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

O hyd, mae'r gymdeithas yn chwilio am aelodau newydd, felly os ydych am bach o sbri a codi arian at achos da - cysylltwch â'n Cadeirydd Pam Jones ar 253257, neu ein Ysgrifennydd Derick Lock ar 253524.

Gwerth mawr yw ein cae chwarae i'r pentref, felly mae'n flaenllaw i ofalu amdano. Un o obeithion y Gwanwyn yw gosod siglen ddwbl felly'n mae'n orfodol i drigolion y pentref i gefnogi ein hymgyrchoedd codi arian. Mwy o wybodaeth yn rhifyn nesaf Llais y Llan.

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor ar y 11eg o Fawrth am 8.00 yh yn y Neuadd Goffa.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnon Henri

Er mwyn ceisio codi arian, mae Ymddiriedolwyr y Neuadd yn cynnal noson 'Grand Horse Racing' ar nos Wener 28ain o Chwefror yn y Neuadd am 7.30 yh.

Gan ddefnyddio'r taflunydd DVD a sgrin newydd, bydd pobl sy'n dod i'r noson yn gallu mwynhau rasio go iawn mewn lliw. Yr hyn oll gyda sylwebaeth o gyrsiau rasio megis Chepstow, Goodwood a Newbury.

Mi fydd bar trwyddedig ar gael, gyda bwyd twym a lluniaeth ar gael hefyd. Mae mynediad am ddim, a bydd betiau yn gallu cael ei gosod am £1, neu mewn lluosrifau o hynny. Mi fydd rhagolwg o'r cyntaf/ail heibio'r postyn yn bosib.

Rydym yn chwilio am bobl i noddi 'r rasau (isafswm o £10 y ras), Perchnogion (£2 y ras) a jocis (£1 y ras). Bydd y perchnogion a jocis llwyddiannus yn derbyn gwobrau o £10 a £5.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ysgrifenydd Derick Lock ar 253524. Dylai fod yn noson gyffrous, felly plis dewch i ddangos eich cefnogaeth i neuadd y pentref. Bydd holl elwau'r noson yn cael ei gyfrannu i gynnal a chadw'r neuadd.

Cyngor Bro Llanpumsaint

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf ym mhob mis (ac eithrio misoedd Rhagfyr ac Awst) am 8 yr hwyr yn y Neuadd Goffa ac mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Mae ein Clerc yw Phillip Jones, a gellir cysylltu ag ef ar 01267

253512, neu philkto@yahoo.co.uk

Croesawyd Pamela Jones gan y Cynghorwyr, sydd wedi cael ei apwyntio fel Cynghorwr Cymunedol newydd wedi marwolaeth drist Mrs Mali Lloyd llynedd.

Yng nghyfarfod Ionawr a Chwefror trafodwyd y codiad o garthffosiaeth drwy'r pentref, sy'n llygru caeau, heolydd ac yn achosi problemau gyda draeniau i rai cartrefi.

Ymchwiliwyd y broblem gan Ddŵr Cymru a Chyngor Sir Gaerfyrddin, a gobeithiwn bydd gwaith adfer yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos. Bydd Cyngor Cymuned Llanpumsaint yn dal i bwysu ar Dwr Cymru i sicrhau bydd y broblem yn cael ei datrys.

Oes os gan unrhyw drigolion phroblemau gyda'r carffosiaeth yn codi cysylltwch gydag un o'r Cynghorwyr Cymuned gyda manylion.

Derbyniwyd nifer o gwynion gan y Cynghorwyr am sbwriel yn y pentref, a baw cŵn nail ai yn cael ei gadael yn y fan neu mewn bagiau plastig wedi'i daflu i'r cloddiau.

Ystyriwyd yng nghyfarfod mis Chwefror y ceisiadau ar gyfer cymhorthdal o sefydliadau lleol. Mae'r Cyngor yn ystyried cymorthdaliadau ddwywaith y flwyddyn. Os ydych chi mewn grŵp lleol sydd eisiau ariannu mae angen i chi gyflwyno'ch cais i'r clerch erbyn y 1af o Fedi neu'r 2il o Ionawr bob blwyddyn.

Doedd dim unrhyw geisiadau cynllunio i'w drafod.

Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad-: Elfed Davies, Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Pamela Jones, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst.

Penwythnos Garddio Llandysul – Chwefror 21, 22, 23

Neuadd Tysul Llandysul - SA44 4QJ. O hyd mae hwn yn benwythnos diddorol, gyda siaradwyr unigryw bob dydd yn siarad am ‘hellebores’, gwenyn, llysiau, tyfu llysiau eich hun, cynllunio gerddi, planhigion i Orllewin Cymru a llawer llawer mwy! Bydd stondinau yn y neuadd a lluniaeth ysgafn. Am fwy o fanylion; www.llandysul-ponttyweli.co.uk <<http://www.llandysul-ponttyweli.co.uk>>

Newyddion am yr ysgol

Ar ddechrau tymor ysgol newydd, mae'n bleser croesawu Jacob Passenger a Macs Hastings sydd wedi dechrau yn yr 'ysgol fawr' o'r diwedd. Croeso cynnes iddynt.

Mae disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol wedi dechrau ymarfer gyda côr y Sir ar gyfer Cyngerdd y Proms ym mis Mehefin.

Llongyfarchiadau i dîm Pêl droed yr ysgol ar ennill cystadleuaeth yr Urdd Ardal Caerfyrddin yn ddiweddar. Mi fyddant yn cystadlu yn rowndiau terfynnol Cymru yn Aberystwyth ar Fai'r 10fed.

Ar y 4ydd o Chwefror, bu disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yr ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth Heptathlon yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Roedden nhw wedi mwynhau yn fawr iawn.

Yn ddiweddar, braf oedd croesawi PC Catherine Williams i'r ysgol a fu'n siarad gyda'r disgyblion am beryglon o fewn ein cymdeithas. Mi fydd hi'n ymweld yn gyson yn ystod y flwyddyn.

Eleni eto, mae'r disgyblion yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Mae'r ysgol yn cystadlu mewn amryw o gystadleuthau yn cynnwys llefaru, canu, celf a chreffft.

Dyddiadau i'w cofio:

10.03.14 – Rhagbrofion Eisteddfod Cylch Caerfyrddin

12.03.14 – Eisteddfod Cylch Caerfyrddin

CÔR LLANPUMSAINT A'R CYLCH

Cynhaliwyd Cyngerdd Blynyddol y côr eleni ychydig yn hwyrach nac arfer ar nos Sadwrn, Tachwedd 30 2013 yng Nghapel y Tabernacl yng Nghaerfyrddin. Daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i glywed y côr yn rhoi perfformiad arbennig iawn, o dan arweiniad Gwyn Nicholas o'r Elijah gan Mendelssohn. Yn cynorthwyo'r côr oedd Ros Evans Soprano, Rhian Williams, Mezzo Soprano, David Fortey, Tenor a Adam Gilbert, Bariton. Yr organydd oedd Martyn Jones ac hefyd yn bresennol oedd Pedwarawd Llinynnol o dan ofal Mansel Hughes. Yn ôl barn y gynulleidfa a oedd yn bresennol hwn oedd y cyngerdd gorau hyd yn hyn. Ar ran y côr hoffem ddiolch i'n noddwyr sydd yn ein cefnogi yn flynyddol ac i bawb am eu presenoldeb.

Ar hyn o bryd mae'r côr wedi ail-ddechrau ar ôl gwyliau haeddiannol ac yn paratoi ar gyfer cyngerddau ym mis Mawrth ag Ebrill eleni.

Os oes unrhyw un a diddordeb i ymuno a'r côr a fydddech cystal â chysylltu â'r arweinydd Gwyn Nicholas neu unrhyw aelod o'r côr.

Tywyddgall Chwef 2014

O na byddai'r glaw yn disgyn ar draws Cyfandiroedd y byd ac nid ar Brydain I gyd yr un pryd! Mi fu Ionawr 2014 y gwlypaf erioed; o fewn cof; o gofnodion y Met Office a chofnodion Adran y Tywydd ym Mhrifysgol Rhydychain sydd wedi bod yn cofnodi'r tywydd oddi ar 1767, ond.....fe all cymuned Llanpumsaint gyfrif eu bendithion fod ein tai yn sych a bod y cwm a fu yn Llyn yn ystod Oes yr Ia wedi hwyluso llif y glaw allan o'r dyffryn. Yn rhyfeddol braidd, nid ffermwyr ac amaeth sydd yn cael y bai bryd hyn am y llifogydd; y gwyn arferol yw fod ffermwyr wedi bod wrthi yn sychu ei tiroedd a bod glaw yn mynd a r rês drwyr pridd, I fewn I nentydd ac afonydd ein gwlad ac yn creu gorlif. Mae'r sylw wedi troi y tro yma at drefi a datbygu, a'r pridd sydd wedi ei orchuddio gan goncrit a tharmac. Llifa dŵr glaw ar garlam ar draws yr arwynebedd caled, lle byddai ei lwybyr yn llawer mwy hamddenol pe bai'r glaw yn disgyn ar y dywarchen ac yn suddo drwy'r pridd ac I ffwrdd. Crewyd amodau perffaith ar gyfer dilyw, wrth I afonydd breision lifo allan o'u aberoedd, I foroedd tymestlog a atgyfnerthwyd gan gorwyntoedd tymhestlog. Cafodd grym y lli yr oruchafiaeth ar llif yr afonydd a thagwyd y dŵr yn y dyffrynoedd a chreu dinistr a llanast na welwyd mo'I debyg o'r blaen. Nid rhyfeddod llwyr oedd yr hyn a ddigwyddodd; bu arbenigwyr eisioes yn darogan y digwydda glaw trwm a llifogydd....ond nid am o leiaf 20 mlynedd arall! Rhaid cynnal y drafodaeth am ddyfodol gwastadeddau isle ar frys!

Ni fydd morgloddiau'r '50au yn abl I feistrioli'r tywydd presennol, ac nid oes yr adnoddau ar gael I'w ymestyn, felly, mae'n bur debyg bydd rhaid I drigolion sydd wedi byw mewn ardaloedd sydd yn is na'r mor yn gorfod symud I dir uwch. Oes awydd ar rhywun brynu tai rhâd ar yr arfordir; debyg iawn bydd modd eu prynu am bris rhesymol, ond beth am yr insiwrans?

Capel Ffynnonhenri

Our Christmas Service was held on Sunday morning, December 22 2013 which was well attended. The following took part:- Glenys Nicholas, Amy Marlor, Frances Evans, Doreen Nicholas, Rhian Perks, Nerys Jones, Olwen Jones, Miriam Elin Jones, Linda Davies, Eilir Davies, Danny Davies and Gwyn Nicholas. The collection was made by Ray Davies and the organist was Meryl Davies.

Details of services for the months of February, March and April 2014 are as follows:-

February 9 2014	Communion at 2.00 p.m.	Rev. Wyn Vittle
February 23 2014	Further details to follow	
March 9 2014	Communion at 3.30 p.m.	Mr Arwyn Pearce
March 23 2014	Service at 10.30 a.m.	Mr Ioan Wyn Evans
April 6 2014	Communion at 4.00 p.m.	Rev Huw George
April 20 2014	Easter Sunday at 10.30 a.m. Communion Service	Rev Gareth Morris

Os am ragor o fanylion cysylltwch â Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul: 10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)

2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg

Dydd Mawrth 1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel

Dydd Iau 2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Nebo

Mi fydd y gwasanaethau canlynol yn cael ei gynnal yn Nebo:

Mawrth 2il- Parchedig Gerald Jones 2y.p

16eg- Parchedig John Morgan 2y.p

23ain- Parchedig Goronwy Wynne 2y.p

Ebrill 6ed Parchedig Huw George 4y.h

13eg Mr Lyndon Lloyd- 2y.p

20fed Parchedig Goronwy Evans 10.30 y.b

Mai 4ydd Parchedig John Gwylim Jones 2y.p

18fed Mr Ioan Wynn Evans 10.30 y.b

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Meinir Jones ar 253532.

Eglwys y Plwyf

Mae manylion unrhyw wasanaethau arall ar hybysfwrdd yr eglwys.

www.llanpumsaintparish.org , 01267 253205 neu E-bost:-

vicar@llanpumsaintparish.org

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanpumsaint

Mae'n eithaf syml - os ydych yn siopa ar y We cofrestrwch unwaith gyda

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta>>. Wedyn bob tro fyddwch yn siopa ar y we ewch i'r Wefan “Your favourites” a bant a chi.

Gellwch arbed arian gyda “easyfundraising” hefyd, oherwydd dewch ar draws gynigion rhatach yno. Felly byddwch yn ein helpi ni ac yn arbed arian yr un pryd. Cewch fwy o fanylion oddiwrth Sarah 253412.

“Milwr Bychan” Bethel

Mae'r ail hen fedd ar y dde ym mynwent Bethel Llanpumsaint yn ein hatgoffa am stori drist aeth yn angof am ddegawdau. Anodd yw hi i ddarllen y manylion am bwy a gladdwyd yno oherwydd bod yna groes fawr wedi ei gosod wrth ben. Ond wrth edrych o gyfeiriad y gorllewin mae'r canlynol yn ddigon darllenadwy.

Emrys Morris

Gynt o “School House”

Syrthiodd ar faes y Gad

Llawer mwy anodd yw ceisio dehongli'r wybodaeth islaw ond mae'r enw *Margaret* a 82 yn datgelu digon i ymchwilio'n bellach. Merch y ffermwr a'r melinydd lleol Ifan Dafis oedd Margaret, a aned yn 1868. Yr oedd yna ddigon o waith ar Fferm 184 erw'r Felin, Llanpumsaint i'r holl deulu. Yno y bu Margaret gyda'i chwaer a'r tri brawd, nes iddi gwympo mewn cariad a'r Ysgol Feistr golygus newydd, Griff Morris. Wedi'r briodas yn 1897 ymgartrefodd y ddau yn “School House”, lle ganed 5 o blant iddynt, ac Emrys oedd yr hynaf. Felly rhaid iddo fod yn yr un dosbarth ysgol a fy Mam a hithau hefyd wedi ei geni yn 1898.

Brodor o Lanon Llanelli oedd Mr Morris, ac felly nid yw'n syndod iddo ymateb i'r cyfle o ddychwelid yw hen gynefin fel Prifathro Ysgol Y Bryn Llanelli yn 1914, ar ôl rhoi 22 blynedd o wasanaeth clodwiw i Lanpumsaint. Diddorol nodi yma mae Mr Johns ddaeth yn ei le. Gyda'r Rhyfel Mawr nawr ar droed ymatebodd Emrys yn frwdfrydig i'r alwad ac ymuno a'r “Royal Welsh Fusiliers”. Fe'u danfonwyd i faes erchyll Y Somme.

Nodir hefyd ar y garreg fedd ym Methel i Emrys gael ei ladd ar y 20fed o Orffennaf 1916 ag yntau ond deunaw oed. Ond ni chladdwyd ef yn Llanpumsaint. Wedi ymchwilio eto gellir cadarnhau fod ei fedd yn wlad Belg, yn y “Berks Extension Cementary” Ploegstreet, Ypres Salient, Comines-Warmton. Ar yr 20fed o Orffennaf tyngedfennol hwnnw, yn ystod Brwydr Goed Delville, gorchmynnodd y Cadfridog Haig y Fusiliers Cymreig i achub bataliwn o Dde'r Affrig oedd wedi eu hynysu yn y goedwig. Bu'r ymladd yn ffyrnig a gwaedlyd iawn, ac yno y collodd y bachgen o Lanpumsaint ei fywyd ymysg llawer eraill ar y ddwy ochr.

Mae'n amlwg fod y garreg ychwanegol wedi ei rhoi ar fedd y teulu rywbryd ar ôl y claddedigaethau yno ym Methel, ac yn amlwg yn cadarnhau eu penderfyniad nad a'i bachgen yn angof ym mro ei febyd. Am ryw reswm 'does 'na 'r un gofeb i filwyr y Rhyfel Gyntaf yn yr ardal. Hoffwn ddiolch yn fawr i Malcolm Pandy am dynnu fy sylw at y bedd, a hynny wnaeth sbarduno'r ymchwil. Mae hyn hefyd yn ein hatgoffa na ddylid anwybyddu hanner storiâu yn suo yn y gwynt bob tro. Yn ystod fy ymchwil des o hyd i ragor ond mwy am hynny eto.

Arwyn 2014

Noson Siglo yn y Neuadd

Erbyn canol prynhawn ‘roedd ein tŷ ni yn llawn ffrindiau a chwn ag un gwarchodwr, a hefyd argoelion am noson dda i ddod. Gwyddwn fod cerddoriaeth Siglo, pryd o fwyd a chyfle i wisgo lan ar y fwydlen. Edrychais ar fy hen siwt streipiog wyrdd, honno heb lawer o gyfle i’w gwisgo dros y ddegawd olaf. Ond er yr hiraeth penderfynais wisgo’n barchus, er y byddwn yn difaru wedyn. Wedi cwblhau’r trefniadau gartre a gwisgo cotiau mawr bant a ni, Noson sych serennog oedd hi wrth i ni gerdded yn hamddenol tua’r neuadd, gyda phawb mewn hwyliau da wedi panso gwishgo lan am yr achlysur. Aethom i mewn drwy’r Allanfa Dan ac ‘r oedd yr awyrgylch yn hudolus a chroesawgar. Sylwon fod Band Barry Wade yn edrych yn ddeniadol yn eu hetiau Fedoro a’u capiau, a’u hosgo hamddenol yn awgrymu eu profiad o lwyfannu. Gyda byrddau crwn yn ddigonol i eistedd 80 llenwodd yr ystafell yn gyflym. Cneuwyd awyrgylch addas gan y Jazz cefndirol a’r goleuadau cannyll.

Ar ôl petruso peth dewisom ein bwrdd ac wrth eistedd daeth aroglau hyfryd o gyfeiriad y gegin. Ymlacion gyda chymorth y gwin Merlot a chyn hir daeth yr alwad i fwyta. Lasagne chili neu lyseuig, tato moch a salad, bara garleg twym; wedyn y pwdin, yn darten a threiffis o bob math ac yna bisgedi a chaws i orffen. Wedi ennill bocsed o dryffis yn Raffl y Groes Goch, rhuthrais allan ar alwad rhif arall, ond yr embaras o flaen pawb, ‘roedd y rhif anghywir gennyf.

Yn dilyn y wledd daeth ein cyfle i ddawnsio i hen ffefrynnau fel “Honeysuckle rose, Autumn leaves a Summertime”. Dyna wych o olygfa gyda phawb yn dawnsio yn eu gwisgoedd lliwgar unigryw. A chyda gwisgoedd y gwagedd yn cyrlio o gwmpas yr oedd yr olygfa yn ein hatgoffa o’r Amerig yn y dauddegau. Trueni na faswn wedi gwisgo fy hen siwt werdd! Ond dyna fe wy ffili dawnsio beth bynnag, ond ar ôl yr holl fwyd, gwin, y sgwrsio a’r chwerthin yr oeddwn wedi blino’n lan. Llwyddais er hynny i gerdded gartre fraich yn fraich gyda’r gwraig dan olau’r nen. Diolch i Anne Petitt a’r criw yn y gobaith y gwneir hyn eto..

Peter Weldon. .

Urdd Merched Bronwydd

Mae’r Urdd yn cyfarfod yn Neuadd Bronwydd ar yr ail ddydd Llun o’r mis o 7.00 y.h. i 9.00 y.h. - bydd croeso cynnes i unrhyw aelodau newydd. Am unrhyw fanylion pellach cysylltwch â Val Lock ar 01267 253 524, neu Sandra MacDonald ar 01267231265.

Village Voice February 2014

Copy Date for next Edition 25th March 2014

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday Zumba 6.30 – 7.30 Memorial Hall

Every Wednesday Mobi 5.30 – 7.30 Outside Memorial Hall

Third Monday each month 7.30 Merched yr Wawr Memorial Hall

February 20 Thursday 7.00 Curry and Quiz £5 a head Railway Inn

February 21 – 23 Llandysul Gardening Weekend Tysul Hall

February 23 Sunday 1.45 West Wales Dowers Society AGM Bronwydd Hall

February 23 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

February 24 Monday 2.00 Clwb Gwili >60+ Police + Cawl!

February 24 Monday 7.30 PCC Llanpumsaint Church

February 28 Friday 7.30 Horse Race Evening Memorial Hall

March 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

March 11 Tuesday 12.15 Happy Feet Clinic Memorial Hall

March 12 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn to book phone 253643

March 20 Thursday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn

March 22 Saturday 10.00 Litter-pick Memorial Hall

March 23 Sunday 1.45 West Wales Dowers Society Bronwydd Hall

March 24 Monday 2.00 Clwb Gwili >60

March 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

April 1 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

April 8 Tuesday 8.00 AGM Welfare and Recreation Committee Memorial Hall

April 9 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn to book phone 253643

April 12 Saturday 2.00 Walk Alltwalis

April 17 Thursday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn

April 27 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

May 4 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

May 5 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365

Clwb Gwili 60+

The Club held their first meeting for this year on 27th January. Well over 60 members attended with the guest speaker Mr Robert Morgan giving a very interesting talk on "Life Begins at 60"

The Club has grown steadily during last year achieving just over a hundred members this month. Members have each been issued with a Calendar of Events showing a full and varied programme for the coming months, including two full and two half day excursions. The next club meeting will be on 24th February when members will hopefully enjoy a bowl of "Cawl" along with other refreshments to celebrate St David`s Day. The guest speaker for the day will be PC Martin Dickenson PSO for Dyfed Powys Police.

New members are always welcome, contact the Secretary Val Giles Tel No 01267 281194

"Happy Feet" with Wellbeing Regeneration's Footcare Service

This toe-nail cutting service comes to Llanpumsaint Memorial Hall every six weeks. Next session 11th March. Phone to book in. £8.50 per session plus initial payment only of £26.50 for your own personal set of clippers and file. Info and bookings: 01554 744896 - office hours 9.30am to 4.30pm

http://www.wellbeingregeneration.org.uk/cms/index.php?option=com_content&view=article&id=56&Itemid=18

Clwb Cerdded Llanpumsaint Walkers Club

Unfortunately, due to the very wet and windy weather we have suffered since Christmas, our walks for January and February were cancelled.

However, we will be keeping our fingers crossed for good weather for our next walk, which will be up the Nant Alltwalis Valley on Saturday 12th April at 2.00pm. The walk is about 5 miles, slowly climbing up the valley. With thanks to Chris Fuller, we can park at Glyncoch in Alltwalis. (coming into Alltwalis from Llanpumsaint, turn right onto a very narrow road just before the bridge over the river. Glyncoch is the first property on the left) We will be crossing fields with sheep, so dogs must be kept on a lead. We do have to cross some streams on this walk, so waterproof footwear is recommended. If you want to join us, please let me know so that we can share transport. We will have a picnic break at the ruins when we get near the top of the valley.

We are a very social group of walkers. We call ourselves the 'Dawdlers'! For more information contact Carolyn on 01267253308, info@gwilimill.co.uk

Litter-pick day

The Clwb Cerdded Llanpumsaint Walkers have organised a Litter-pick day for Saturday 22 March at 10.00, starting at the Memorial Hall. Keep Wales Tidy will be providing tools, gloves and bags – so we just need you to come along and collect litter from the roads in the village and the routes to the village, particularly the Graig, where car passengers and drivers seem to delight in throwing out the packaging from take-away meals bought in Carmarthen.

It will only take a couple of hours, less if we get enough pickers. Last time we did a litter pick we collected over 20 black bags of rubbish, so please come along and give the village a spring clean. Carolyn Smethurst 253308

Wales Pedometer Challenge

There is a new activity challenge - step up in 2014 and challenge yourself by taking up the Wales Pedometer Challenge. Lets Walk Cymru, wants to get the people of Wales walking and challenges everyone to get stepping more often. Seeing how many steps you do and setting yourself challenges can be a good incentive to get you more active! You can challenge yourself, colleagues, family or friends to get walking. Walk the distance of the Welsh three peaks or set up a team to step around the world. Sign up today and get started today by visiting www.walespedometerchallenge.org.uk for further information.

Welfare and Recreation Committee - Llanpumsaint 100 Club

At the Welfare and Recreation Association Committee meeting on 13th January, the draw was made for the January winners, and the winners are as follows:

£20	No.75	Dorrien Thomas
£10	No.71	Jack and Sheila Nuttall
£5	No.22	Wyn Thomas
£5	No.52	Sulwen Jones

